At:

Benaethiaid a swyddogion arholiadau pob ysgol uwchradd yng Nghymru.

12 Chwefror 2016

Gohirio cyflwyno TGAU Astudiaethau Crefyddol a TGAU Hanes

Annwyl Syr / Madam

Ers i ni gael ein sefydlu ym mis Medi 2015 yn rheoleiddiwr annibynnol, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddiwygio cymwysterau TGAU yng Nghymru. O ganlyniad felly, rydym wedi cymryd y penderfyniad anodd i ohirio cyflwyno'r TGAU Hanes a'r TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd o fis Medi 2016 i fis Medi 2017.

Yn y llythyr hwn, hoffwn egluro ein penderfyniad a'r ystyriaethau a ddylanwadodd arno. Rydym hefyd wedi nodi'r cymorth a fydd ar gael i'r ysgolion hynny a gaiff eu heffeithio fwyaf gan y penderfyniad.

Rydym o'r farn bod buddiannau gohirio'r cymwysterau hyn yn drech na'r risgiau sy'n gysylltiedig â pharhau â'r amserlen wreiddiol. Bydd gohirio'r cymwysterau hyn yn rhoi mwy o amser i ysgolion baratoi ar gyfer eu haddysgu yn gyntaf a datblygu adnoddau dysgu ac addysgu dwyieithog. Rydym yn ymwybodol y bydd hyn yn achosi trafferthion i gyfran fach o ysgolion ac mae'n ddrwg gennym am hynny.

Rhesymau dros ohirio

Gwnaed ein penderfyniad ar sail tair prif ystyriaeth:

1. Nid ydym yn disgwyl y bydd y cymwysterau hyn yn barod i'w cymeradwyo tan ar ôl i dymor yr haf ddechrau, sy'n hwyrach nag unrhyw bwnc arall sy'n cael ei ddiwygio eleni. Rydym yn cydnabod y ffaith bod angen digon o amser ar ysgolion i baratoi ar gyfer cymwysterau newydd, ac rydym hefyd yn cydnabod yr her bresennol i bynciau eraill. Credwn fod peidio â chyhoeddi deunyddiau

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

dwyieithog cymeradwy gryn amser i mewn i dymor yr haf yn rhoi gormod o bwysau o ran amser ar ysgolion.

2. Bydd y pwysau hyn yn arbennig o drwm ar gyfer y pynciau hyn, gan y bydd y newidiadau i strwythur a chynnwys y ddau gymhwyster yn golygu y bydd angen gwneud newid sylweddol i'r ffordd y cânt eu haddysgu. Bydd gohirio'u cyflwyno yn rhoi mwy o amser i athrawon ymgyfarwyddo â'r newidiadau hyn ac i ddatblygu cynlluniau addysgu diwygiedig. Dim ond yn hwyr y llynedd y cytunwyd ar ddyluniad terfynol y cymhwyster ar gyfer y pynciau hyn ac felly, dim ond gwybodaeth gyfyngedig am eu strwythur a'u cynnwys newydd sydd wedi bod ar gael i ysgolion. Mae hyn yn wahanol i bynciau eraill lle cyhoeddwyd manylebau drafft neu ddeunyddiau asesu enghreifftiol.
3. Yn ôl rhagamcaniadau presennol, ni fyddai adnoddau dysgu ac addysgu diwygiedig i gefnogi'r pynciau hyn ar gael tan dymor yr hydref.

Mae'r tri ffactor hyn gyda'i gilydd yn cyflwyno dadl gref dros ohirio cyflwyno'r cymwysterau hyn am flwyddyn. Rydym yn cydnabod y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar ysgolion mewn ffyrdd gwahanol, gan ddibynnu ar p'un a ydynt yn addysgu'r fanyleb CBAC bresennol ai peidio. Fodd bynnag, ar ôl pwyso a mesur, rydym yn ystyried bod buddiannau gohirio'r cymwysterau hyn i bob ysgol yn drech na'r trafferthion y byddai'n eu hachosi i nifer fach o ysgolion.

Effaith ar ysgolion

Er nad oes llawer o wybodaeth ar gael am y cymwysterau newydd ar hyn o bryd, gwyddom y bydd llawer o ysgolion wedi dechrau paratoi i addysgu'r cymwysterau newydd ac y bydd yn rhaid iddynt nawr newid eu cynlluniau ar gyfer mis Medi. I'r rhan fwyaf o ysgolion, bydd yr effaith yn gymharol fach: byddant yn parhau gyda'r manylebau CBAC presennol a gaiff eu hymestyn am flwyddyn. Fodd bynnag, bydd effaith gohirio'r cymwysterau newydd yn llawer mwy sylweddol i'r ysgolion hynny sy'n defnyddio manyleb corff dyfarnu arall ar hyn o bryd.

Pan gaiff cymwysterau TGAU Hanes a TGAU Astudiaethau Crefyddol diwygiedig eu cyflwyno yn Lloegr i'w haddysgu yn gyntaf o fis Medi 2016, ni fydd y manylebau presennol (ar wahân i fanylebau CBAC) bellach ar gael i ddisgyblion sy'n dechrau eu hastudiaethau ym mis Medi 2016. Mae hyn yn golygu y caiff cyfran fach o'r ysgolion sy'n defnyddio corff dyfarnu arall ar gyfer TGAU Hanes neu TGAU Astudiaethau Crefyddol eu heffeithio'n wahanol gan ein penderfyniad i ohirio. Bydd yn rhaid i ysgolion a gaiff eu hariannu gan y wladwriaeth sydd yn y sefyllfa hon newid ym mis Medi o'r fanyleb y maent yn ei haddysgu ar hyn o bryd i un o fanylebau cyfredol CBAC, cyn newid eto yn 2017 i'r cymhwyster newydd, diwygiedig.

Rydym yn amcangyfrif y caiff tua 33 o ysgolion eu heffeithio yn y modd hwn o ganlyniad i'r penderfyniad i ohirio TGAU Astudiaethau Crefyddol a chaiff 17 o ysgolion eu heffeithio gan y penderfyniad i ohirio TGAU Hanes. Caiff tair ysgol eu

heffeithio gan y penderfyniad i ohirio'r ddau gymhwyster. Cyn penderfynu gohirio'r cymwysterau, ysgrifennwyd at bob un o'r ysgolion hyn i asesu natur yr effaith y byddai'r penderfyniadau hyn yn eu cael arnynt ac i ofyn am sylwadau ar ba fath o gymorth y gallai helpu i reoli'r effaith honno.

Cymorth i'r ysgolion yr effeithir arnynt

Rydym yn gweithio gyda CBAC, Consortia Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i roi pecyn cymorth ar waith er mwyn helpu'r ysgolion hyn i reoli effaith newid manylebau ddwywaith mewn dwy flynedd. Rydym yn ysgrifennu at yr ysgolion hyn ar wahân gyda mwy o fanylion am y cymorth y gallant ei ddisgwyl, a fydd yn cynnwys hyfforddiant er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â manylebau presennol CBAC. Ar gyfer ysgolion a gaiff eu hariannu gan y wladwriaeth rydym yn cydweithio â'r consortia rhanbarthol i sefydlu cymorth cydweithwyr gan ysgolion sydd eisoes yn defnyddio manyleb CBAC a chefnogaeth wrth gaffael adnoddau dysgu ac addysgu y bydd ond eu hangen ar gyfer un garfan yn unig.

Cymeradwyo cymwysterau TGAU a Safon Uwch eraill i'w haddysgu gyntaf yn 2016

Gwyddom y bydd ein penderfyniad i ohirio TGAU Hanes a TGAU Astudiaethau Crefyddol yn codi cwestiynau ynglŷn â diogelwch yr amserlen ar gyfer cymwysterau eraill y bwriedir eu haddysgu gyntaf mis Medi hwn. Rydym yn cydnabod nad yw'r amserlen eisoes mewn man delfrydol o bell ffordd, ond y cyfuniad o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r ddau gymhwyster hwn sydd wedi arwain at ein penderfyniad. Nid ydym, felly, yn ystyried gohirio cymwysterau newydd eraill y bwriedir eu haddysgu gyntaf eleni.

Mae amserlen ar ein gwefan yn dangos pryd y byddwn yn disgwyl bod mewn sefyllfa i allu cymeradwyo'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd ym mhob pwnc sy'n cael eu diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2016 (http://qualificationswales.org/development/changes-for-2016/?lang=cy). Rydym yn monitro'r amserlen hon yn ofalus ac yn gweithio'n agos gyda CBAC i sicrhau y gwneir pob ymdrech i lynu ati.

Mae manylebau drafft a deunyddiau asesu enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi ar wefan CBAC a byddem yn eich annog i fanteisio arnynt i'r eithaf. Byddwn ond yn cymeradwyo'r cymwysterau pan fyddwn yn hyderus eu bod yn bodloni ein holl ofynion rheoliadol, ond yn disgwyl mai o ran manylion yn unig y gwneir unrhyw newidiadau.

Deallwn y caiff y newyddion am y gohirio ei groesawu gan lawer o bobl, ond ddim gan bawb. Ni fu'n benderfyniad hawdd, ond credwn mai dyma'r penderfyniad cywir i'r rhan fwyaf, a'i fod er lles dysgwyr. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r ysgolion hynny a gaiff eu heffeithio'n andwyol gymaint â phosib.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am hyn neu unrhyw agweddau eraill ar ddiwygio cymwysterau cyffredinol, cysylltwch â ni yn ymholiadau@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr
Cymwysterau Cymru